



**LLAWLYFR
LLETY LLYSFASI**

AROS AC ASTUDIO

LLES MYFYRWYR

Mae lles ein myfyrwyr preswyl yn bwysig iawn i ni, ac mae'r wybodaeth a ganlyn yn esbonio ein hymroddiad i'n myfyrwyr ac i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer llety gan golegau addysg bellach i fyfyrwyr dan 18 oed a chanllawiau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru AGGCC.

Mae datganiad clir o egwyddorion darpariaeth breswyl a chymorth i fyfyrwyr ar gael i'r rhai sydd eisiau'r wybodaeth hon.

- 1 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n effeithio ar fyfyrwyr preswyl ar gael ar gais ar gyfer myfyrwyr, rhieni neu warcheidwaid.
- 2 Rydym yn trefnu'r llety i gyd gan ystyried diogelwch ein myfyrwyr preswyl.
- 3 Mae'r coleg yn ymrwymedig i wahanu myfyrwyr dan 18 oed oddi wrth fyfyrwyr dros 18 oed mewn blociau llety penodol. Rydym hefyd yn gwahanu bechgyn a merched dan 18 oed.
- 4 Mae'r gwasanaethau a ganlyn ar gael ar gyfer lles y myfyrwyr ac fel cymorth iddynt: Cwnselydd y Coleg, Clinig Iechyd Rhyw, Caplaniaeth a Chyngor ac Arweiniad. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i'r myfyrwyr trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r Warden-yng-Ngofal yn ystod y dydd a thrwy'r wardeiniaid min nos.
- 5 Mae dau warden yr hostel yn goruchwylio'r myfyrwyr min nos a thros nos.
- 6 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o Grŵp Ffocws yr Hostel. Gallwn roi sylw i bryderon ac awgrymiadau'r myfyrwyr trwy'r grwpiau hyn. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cyngor y Campws bob tymor gyda'r Cyfarwyddwr / Rheolwr Safle a Llywodraethwr yn bresennol ynddynt.
- 7 Rydym yn trefnu amserlen gweithgareddau gyda'r nos ac mae'r myfyrwyr preswyl i gyd yn cael eu hannog i ymuno â nhw. Bydd hyn

yn cael ei adolygu bob tymor. Mae llawer o'r gweithgareddau yn cael eu darparu am ddim i'r myfyrwyr, ond efallai bydd rhaid talu am rai ohonynt.

- 8 Rydym yn disgwyl i bob myfyriwr preswyl ymddwyn mewn modd cyfrifol pan fyddant yn y llety neu'n defnyddio cyfleusterau eraill, gan gynnwys Ffreutur y Coleg.
- 9 Mae'n rhaid i breswylwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad Myfyrwyr Coleg Cambria. Ystyrir bod bwlio yn achos difrifol o dorri'r Cod ac rydym yn annog myfyrwyr i drafod digwyddiadau bwlio gyda'r Warden er mwyn delio â'r broblem yn unol â gweithdrefnau'r coleg.
- 10 Mae'n rhaid i chi fel preswylwyr gadw at y rheolau ynglŷn â swm sy'n berthnasol i'ch llety. Ni ddylai swm achosi niwsans unrhyw bryd.
- 11 Mae ystafell bwrpasol i gleifion yn y llety. Os ydych chi'n teimlo'n ddirifol wael yn y coleg, mae'n rhaid i chi roi gwybod am hynny i aelod o staff. Gallwn wedyn weithredu'r camau priodol.
- 12 Mae'n rhaid i fyfyrwyr dan 18 oed sy'n dymuno gadael y safle, ddychwelyd i'r hostel erbyn 10.30y.h. Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at weithredu'r weithdrefn a nodwyd yn y Polisi 'Plant Coll', sy'n cynnwys cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid.
- 13 Mae'r coleg yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i unrhyw fyfyriwr dan 18 oed adael adeiladau'r coleg yn ystod y nos nes bod pob ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi a'u hanfon yn ôl i'r coleg gan y rhiant/gwarcheidwad. Disgwylir i fyfyrwyr dan 18 oed all-lofnodi pan fyddant yn gadael adeiladau'r coleg.
- 14 Gofynnir i chi roi gwybod am unrhyw feddyginiaeth rydych yn ei chymryd i'r Warden-yng-Ngofal. Os ydych chi'n cymryd eich meddyginiaeth eich hunan dylech lenwi'r ffurflen briodol wrth wneud cais am le yn y llety. Bydd hyn yn galluogi Warden-yng-Ngofal yr Hostel i asesu faint o gymorth byddwch ei angen efallai. Dylech roi gwybod am alergeddau hefyd. Bydd pob gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

- Mae ffioedd y llety'n cynnwys pris yr ystafell a bwyd (brecwast a phryd nos). Nid oes gostyngiad os yw'r myfyrwyr yn y coleg am dri diwrnod yn unig neu eu bod ar leoliadau gwaith neu'n cael eu hanfon adref oherwydd tywydd garw.
- Mae'r tâl am ystafell ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan. Mae hyn yn neilltuo'r ystafell i chi am y cyfnod hwn. Ni fyddwch yn talu am gyfnodau gwyliau. Bydd angen talu blaendal fel y nodwyd yn y tabl taliadau, i neilltuo eich ystafell am y flwyddyn academaidd. Codir tâl drwy eich anfonebu am unrhyw ddfrod a achosir i ystafelloedd neu i fannau eraill yn y llety.
- Mae'n rhaid i breswylwyr gadw eu hystafelloedd yn lân a helpu i gadw'r ystafelloedd adloniant cyhoeddus yn daclus. Mae'n hanfodol ein bod yn cael mynediad i'r ystafelloedd i'w glanhau, eu harchwilio neu eu hatgyweirio ar adegau rhesymol a byddwn yn trafod hynny gyda'r preswlydd.
- Mae holl lety'r myfyrwyr yn ddi-fwg. Mae'n rhaid i unrhyw ysmegu, gan gynnwys sigarennau electronig, ddigwydd yn y manau ysmegu dynodedig, waeth beth fo'r tywydd. Mae hyn yn berthnasol i bawb ar safle Llysfasi.
- Ni chaniateir unrhyw fath o anifeiliaid anwes yn llety'r coleg. Caniateir cŵn tywys, ond mae'n rhaid rhoi gwybod am hynny ymlaen llaw a chael caniatâd y coleg.
- Os ydych chi'n derbyn Arian Cymorth Myfyrwyr tuag at gostau eich llety, bydd disgwyl i chi gyfrannu at ganran cyfanswm costau'r llety. Mae'r cymhorthdal hwn yn dibynnu ar amgylchiadau teuluoedd unigol.
- Byddwch yn cael ffob electronig i agor drws eich ystafell wely. Os ydych chi'n colli neu'n difrodi'r ffob, bydd rhaid i chi dalu £10.
- Nodwch y bydd rhaid talu unrhyw ddyledion ffioedd trwy drefniant gydag Adran Gyllid y coleg.
- Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddarparu eu dillad gwely eu hunain, ac maent yn gyfrifol am eu golchi.
- Codir tâl am lety am 37 wythnos, sef y flwyddyn academaidd lawn. Bydd rhaid talu am y cyfnodau pan fo myfyrwyr ar brofiad gwaith ond ni fydd rhaid talu am brydau, Byddwn yn addasu taliad terfynol y trydydd tymor ar gyfer hynny.
- **BYDD DISGWYL I FYFYRWYR ADAEL EU HYSTAFELLOEDD ERBYN 4.00PM BOB PRYNHAWN DYDD GWENER. BYDD Y LLETY YN AIL AGOR AM 7.00YH AR NOS SUL.**

Bydd gofyn i chi dalu ffioedd trwy un o'r cynlluniau talu a ganlyn, i'r Swyddfa Weinyddol yn Llysfasi:

- Un taliad blynyddol wrth gofrestru.
- Tri rhandaliad, gan dalu un ohonynt ar ddechrau bob tymor trwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae'r swm ar dabl costau'r llety.

Mae prydau ar gael yn Ffreutur y coleg ar yr amseroedd a ganlyn:

Brecwast **8.00yb hyd 8.30yb**
(Dydd Llun i ddydd Gwener)

Pryd nos **5.30yh** (Dydd Llun i ddydd Iau)

Dietau Arbennig

- Mae dewisiadau bwydlen Halal ar gael ar gais.
- Mae dewisiadau bwydlen Fegan ar gael ar gais.
- Mae pob croeso i chi gysylltu ag aelod o'n tîm arlwyo os oes gennych chi ofynion dietegol arbennig.

LLETY (PARHAD)

- Bydd Coleg Cambria yn darparu llety sy'n cael ei gynnal a'i gadw i safon resymol ac sy'n cydymffurfio â deddfau lechyd a Diogelwch.
- Byddwn yn sicrhau bod safon y dodrefn y byddwn yn ei ddarparu, yn rhesymol.
- Byddwn yn sicrhau bod manau cymunedol y preswylfeydd yn cael eu glanhau'n rheolaidd.
- Byddwn yn gwneud gwaith atgyweirio o fewn terfynau amser rhesymol.
- Cynigir yr ystafell dan drwydded a bydd hyd eich deiliadaeth yn cael ei nodi i chi ar y Tabl Taliadau Llety. Nid yw'r cyfnod deiliadaeth yn hyblyg ac ni fyddwn fel arfer yn derbyn rhybudd gennych eich bod am adael eich llety yn ystod cyfnod eich deiliadaeth, ac eithrio lle bo'r coleg wedi methu'n sylweddol â chyflawni ei rwymedigaethau i chi fel deiliad.
- Mae'n rhaid i'r ystafell gael ei meddiannu gennych chi'n bersonol fel myfyriwr cofrestredig Coleg Cambria, ac ni chaiff unrhyw un arall ddefnyddio na rhannu'r ystafell heblaw chi. Rydych chi'n cytuno i beidio ag is-osod, na chaniatáu eraill i feddiannu'r llety. Nid yw eich hawliau o dan y Cytundeb hwn yn drosglwyddadwy.
- Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi symud i lety tebyg arall os oes newidiadau neu waith adeiladu yn cael ei wneud yn y llety, neu o ganlyniad i ddifrod i'r llety, sydd yn ein barn ni'n gwneud y lle'n anaddas i fyw ynddo.
- Os ydych chi'n peidio â bod yn fyfyriwr preswyl oherwydd camau disgyblu yn eich erbyn, bydd rhaid talu ffi o £25.00 am bob wythnos gyflawn sy'n weddill tan ddiwedd y tymor cyfredol.
- Ni chaiff myfyrrwyr ddod â diodydd alcohol na chyffuriau na'u meddu, na'u hyfed na'u defnyddio ar safleoedd y coleg. Bydd disgwyl i rieni / gofawr myfyrrwyr dan 18 oed ddod i'w nôl os yw'r coleg yn ystyried eu bod yn anaddas i aros ar safle'r coleg.
- Ni chaniateir teledu mewn ystafell wely oni bai eich bod yn prynu trwydded. Cyfrifoldeb y myfyriwr/rhiant/gwarcheidwad yw prynu trwydded. Wrth gael teledu yn eich ystafell, rydych chi'n derbyn cyfrifoldeb am brynu'r drwydded. Bydd y Warden-yng-ngofal yn gofyn am gael gweld y drwydded.
- Ni ddylid gallu clywed unrhyw offer sain fel stereos a mwylhawyr sain, ac ati, y tu allan i'ch ystafell. Efallai bydd myfyrrwyr eraill yn astudio neu efallai na fyddant yn dymuno gwrando ar eich dewis chi o adloniant.
- Ceisiwch fod yn ystyrlon ynglŷn â swm, yn enwedig yn ystod y nos. Mae gweiddi, siarad yn uchel, clepian drysau a chwarae o gwmpas yn gyffredinol yn aflonyddu ar eraill ac ni ddylent orfod goddef ymddygiad afresymol fel hyn. – **Ystyriwch bobl eraill.**
- Mae'n rhaid cytuno ymlaen llaw gyda'r Warden-yng-ngofal ynghylch unrhyw offer trydanol i'w ddefnyddio yn llety'r myfyrrwyr. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod unrhyw offer fel hyn yn cael Prawf Cyfarpar Symudol cyn ei ddefnyddio. Ni chaniateir oergelloedd na rhewgelloedd unigol. Ni chaniateir coginio yn yr ystafell wely unrhyw bryd. Ni chaniateir unrhyw fath o wresogyddion symudol yn y llety. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw offer oddi arnoch os na chytunwyd arno ymlaen llaw a'u bod ym marn y coleg yn peryglu diogelwch.
- Mae'n rhaid cadw dillad gwaith ac esgidiau gwaith, boed yn lân neu'n fudr, yn y manau a gafodd eu darparu ac ni chewch fynd â nhw i unrhyw ran o'r llety na'r Ffreutur.
- Nid yw yswiriant y coleg yn cynnwys eiddo personol myfyrrwyr ac fe'ch cyngorir i drefnu yswiriant personol petai angen hynny.
- Bydd myfyrrwyr preswyl sy'n achosi unrhyw ddifrod i'w hystafelloedd, eu dodrefn a/neu unrhyw lety cysylltiedig arall, yn gyfrifol am dalu cost lawn y difrod hwn.

CYFFURIAU AC ALCOHOL

Ni chaiff myfyrwyr ddod â diodydd alcohol na chyffuriau na'u meddu, na'u hyfed na'u defnyddio ar safleoedd y coleg. Bydd disgwyl i rieni / gofalywyr myfyrwyr dan 18 oed ddod i'w nôl os yw'r coleg yn ystyried eu bod yn anaddas i aros ar safle'r coleg. Mae gan y coleg ei anadlennydd ei hun y gellir ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol os credir bod myfyriwr wedi yfed alcohol.

CERBYDAU MYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob myfyriwr sy'n cadw cerbydau ar y safle, eu parcio yn y Meysydd Parcio Myfyrwyr dynodedig. Gofynnir i fyfyrwyr i yrru gyda gofal dyledus a chadw at y terfyn cyflymder pan fyddant ar y safle. Byddwn yn gwahardd unrhyw un sy'n torri'r rheolau'n gyson rhag dod â cherbyd ar safle'r coleg. Mae pob cerbyd yn cael eu gadael ar risg y perchnogion eu hunain.

GWEITHDREFN ARGYFWNG / YMARFERION TÂN

Mae'r gweithdrefnau tân yn cydymffurfio â gweithdrefnau gadael adeiladau'r coleg mewn argyfwng. Byddwch yn derbyn rhagor o gyfarwyddiadau am y drefn gadael mewn argyfwng yn ystod eich cyflwyniad i'r llety.

A wnewch chi hefyd ddarllen yr hysbysiadau "PE BAI TÂN" sydd ym mhob ystafell wely yn ofalus, i gael gwybod beth i'w wneud petai tân. Mae saethau amlwg yn y coridorau, sy'n dangos y llwybrau gadael yr adeilad. Mae gan y Warden gofrestr o bob myfyriwr preswyl ac ni fydd neb yn cael mynd yn ôl i mewn i'r llety hyd nes bod cyfrif am y myfyrwyr i gyd.

Rydyn ni'n tynnu eich sylw at y canlynol:

- Bydd ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor.
- Mae'n rhaid i bob myfyriwr ddod i ymarferion tân.
- Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr ymgyswrtio â lleoliad y mannau ymgynnull a'r llwybr(au) diogel i'w dilyn i'w cyrraedd.
- Caewch ddrws eich ystafell wely wrth adael yr adeilad.
- Os na allwch adael eich ystafell caewch y drws a cheiswch gael cymorth os yw'n bosibl, arhoswch am gyfarwyddyd / rywun i'ch achub.
- Peidiwch â rhoi blocyn i ddal y drysau tân ar agor.
- Caiff myfyrwyr eu gwahardd rhag ymyrryd ag offer diffodd tân a'u camddefnyddio. Cymerir camau disgwyl yn erbyn unrhyw un fydd yn anwybyddu'r gorchymyn hwn.

RHIF FFÔN UNIONGYRCHOL Y LLETY: **01978 267920**
WARDEN: **07543 237361**

CYFLEUSTERAU LLEOL

Mae gwasanaeth bysiau rheolaidd yn mynd heibio'r coleg. Mae amserlenni ar gael gan y Warden mewn gofal.

Fferyllfa

Mae Boots a fferyllfeydd eraill yn Rhuthun, y dref agosaf sydd tua 4 milltir i ffwrdd.

Archfarchnad

Mae siop Tesco yn Rhuthun ac mae cyfleuster twll yn y wal yno hefyd.

Banc

Mae banc HSBC a chyfleusterau twll yn y wal ar gael yn Rhuthun.

Gorsafoedd Petrol

Mae dwy orsaf betrol yn Rhuthun (4-5 milltir i ffwrdd) ac un yn Llangollen a Choedpoeth (y ddwy orsaf betrol 11 milltir i ffwrdd).

GWYBODAETH FEDDYGOL

Y feddygfa leol yw:

Dr Roberts & Partneriaid
Plas Meddyg
Ffordd yr Orsaf
Rhuthun
Sir Ddinbych

Rhif ffôn: 01824 702255

Mae apwyntiadau i weld Meddyg trwy drefniant yn unig. Rhowch wybod i'r Warden-yng-Ngofal os ydych angen gwneud apwyntiad.

Mewn Argyfwng

Mewn argyfwng dylech gysylltu â warden neu aelod arall o staff y coleg. Os nad ydych chi'n gallu gwneud hynny ar unwaith, dylech ffonio'r gwasanaethau brys yn uniongyrchol ar 999.

Ysmygu

Mae gan y coleg bolisi di-fwg ym mhob un o'i adeiladau. Mae hyn yn cynnwys y llety. Mae'n rhaid i unrhyw ysmegu, gan gynnwys sigarennau electronig, gael ei gyfyngu i'r llochesi ysmegu allanol dynodedig, waeth beth fo'r tywydd.

Y WEITHDREFN GWYNO

Bydd pob cwyn yn cael ei thrin o ddifrif. Os oes gennych gwyn yn ymwneud â'r llety rhowch wybod i'r Warden mewn Gofal neu defnyddiwch Weithdrefn Gwyno'r Coleg.

Gallwch hefyd gofnodi unrhyw gwyn am yr llety gydag:

AGGCC, Rhanbarth Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno LL31 9RZ
Rhif Ffôn: 0300 062 5609